# Beth sy’n Gweithio o ran Atal ac Ymyrraeth Gynnar o ACEs ar Lefel Gymunedol?

## *Nodi a Chefnogi Prosiectau ledled Cymru*

***Dr Samia Addis, Joanne C Hopkins***

## Cefndir a nodau

Dangosodd ymchwil flaenorol a wnaed gan Hyb ACE Cymru fod prosiectau cymunedol ledled Cymru yn darparu cymorth i aelodau’r gymuned mewn perthynas ag ystod o adfydau. Gan adeiladu ar yr ymchwil hwn, nod y prosiect hwn yw nodi a mapio prosiectau cymunedol pellach; deall y dulliau mwyaf effeithiol o gefnogi’r prosiectau hyn yn ogystal â’r rhwystrau i ymgysylltu; ac yn olaf i archwilio effaith gwasanaethau ar grwpiau cymunedol.

## Dulliau

Roedd gan y prosiect hwn dri cham casglu data:

Cam un oedd cynnal grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid o brosiectau cymunedol ledled Cymru;

Cam dau oedd datblygu astudiaeth achos drwy nodi a mapio prosiectau cymunedol mewn un ardal;

Cam tri oedd cynnal grwpiau ffocws gyda buddiolwyr o’r gwasanaethau y tri phrosiect cymunedol ledled Cymru**.**

## Canfyddiadau: Cam un

Nododd trafodaeth â rhanddeiliaid o brosiectau a sefydliadau ledled Cymru dair thema allweddol -

Darpariaeth Gwasanaeth

- Cefnogaeth ymarferol
- Angen bod yn gynhwysol
- Bylchau yn y ddarpariaeth statudol
- Ymyrraeth Gynnar
- Stigma
- Dull seiliedig ar gryfderau
- Cydnabod effaith trawma


Cefnogi Prosiectau Cymunedol

- Gofynion am geisiadau cyllid
- Newid blaenoriaethau ariannu
- Gweithio mewn partneriaeth
- Natur tymor byr y cyllid
- Cadw staff
- Cydnabyddiaeth a hyfforddiant i staff
- Cefnogaeth i staff

Ymgysylltu gyda Prosiectau Cymunedol

- Iaith hygyrch
- Cyfathrebu Uniongyrchol
- Cefnogaeth i'r rhai sy'n gweithio o fewn y dirwedd trawma
- Sefydliadau cymunedol yn cydweithio ac yn cefnogi ei gilydd

## Canfyddiadau: Cam Dau




Hyb ACE Cymru
ACE Hub Wales

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan Hyb ACE Cymru gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru.

## Cafnyddiadau: Cam Dau

Cafodd tri deg un o brosiectau cymunedol eu mapio yng Nghaerdydd. Roedd y rhain yn cynnwys prosiectau sy'n mynd i'r afael ag ystod o adfydau ac yn gweithio gydag ystod o grwpiau cymunedol, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, teuluoedd â phlant ifanc a chymunedau lleol.

## Canfyddiadau: Cam Tri

Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda buddiolwyr y gwasanaethau gyda grŵp merched iach yng Ngogledd Cymru. Cyfarfu'r grŵp am y tro cyntaf ar gyfer dosbarth celf a pharhaodd i gyfarfod i roi cymorth. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar fyfyrdod, yn ogystal â phobi, gwnïo a chrefftau.




## Goblygiadau ar gyfer Polisi ac Ymarfer

- Cymorth i gwblhau ceisiadau am arian
- Cyllid ar gyfer costau rhedeg o ddydd i ddydd
- Cyllid pontio ar gyfer staff
- Cyllid i annog gweithio mewn partneriaeth
- Cymorth ymarferol (e.e. datblygu gwefan)
- Cyhoeddusrwydd
- Hyfforddiant o ansawdd da i staff
- Datblygu rhwydweithiau cymunedol

## Casgliad

Mae cefnogi sefydliadau cymunedol yn gofyn am ddull amlochrog, sy’n cwmpasu cyllid, cefnogaeth a datblygiad staff a chymorth ymarferol. Mae hefyd angen datblygu rhwydweithiau a fyddai’n hwyluso cydgefnogaeth ac yn caniatáu darpariaeth gwasanaethau fwy cydlynol.

Cysylltwch â ni: ace@wales.nhs.uk



I weld yr adroddiad, sganiwch isod